**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-754
Ein cyf/Our ref VG/01046/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

10 Mai 2017

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr 27 Mawrth ynghylch y ddeiseb a ddaeth i law gan Rebecca Weale ynghylch cymorth i blant ag anableddau mewn argyfwng.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi bron £8 miliwn o gyllid blynyddol ychwanegol i wella gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, ac i sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i'w helpu i gael y canlyniadau gorau mewn modd amserol. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, a arweinir gan y GIG. Ar y cyd â phartneriaid eraill, mae'r rhaglen yn ymchwilio i rôl y gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc (CAMHS) a gwasanaethau eraill o ran diwallu anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Un o flaenoriaethau'r rhaglen hon yw gwella gwasanaethau niwroddatblygu i blant sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, ac awtistiaeth. Defnyddir £2 filiwn o'r cyllid, sydd wedi ei neilltuo, i wella'r gwasanaeth. Mae'r rhaglen hefyd wedi sefydlu timau gofal argyfwng CAMHS, ac mae £2.7 miliwn o'r £8 miliwn yn cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer hynny. Mae'r timau hyn yn gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau er mwyn sicrhau bod pobl ifanc sy'n dangos symptomau cyflyrau iechyd meddwl, ac sydd mewn argyfwng - ee maent mewn uned damweiniau ac achosion brys neu maent wedi dod i sylw'r heddlu - yn gallu cael y cymorth priodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fis Tachwedd diwethaf, cyhoeddasom ein Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig. Mae hon yn nodi nifer o gamau gweithredu allweddol, a bydd rhai o'r camau hyn yn cael eu cyflawni drwy Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol newydd. Diben y gwasanaeth yw darparu cymorth ychwanegol i blant, oedolion a theuluoedd, i'w helpu i osgoi argyfwng a'r angen am gymorth dwysach. Bydd tîm arbenigol newydd ar gael ym mhob rhanbarth i gynnig cymorth i deuluoedd a gofalwyr. Mae cam cyntaf y gwaith o roi'r gwasanaeth ar waith bellach yn mynd rhagddo, sef ar draws Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Gwent a Phowys. Dylai'r broses o recriwtio aelodau i'r pedwar tîm rhanbarthol hwn gael ei chwblhau'r mis hwn, a dylai'r gwasanaethau fod ar gael ym mis Gorffennaf. Bydd y gwasanaeth yn weithredol ar draws Cymru gyfan erbyn 2018. Wrth inni ddatblygu'r gwasanaeth, byddwn yn ceisio sylwadau gan bobl sydd ag awtistiaeth, yn ogystal â rhieni a gofalwyr, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu datblygu mewn modd sy'n rhoi'r cymorth y mae ei angen.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**